Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: Fferm Frithyllod Llanandras

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy i'r busnes proffesiynol

Dyframaeth ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy i'r sector Dyframaeth

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: Fferm Frithyllod Llanandras

Cefndir

Saif Fferm Frithyllod Llanandras (Presteigne Trout Farm) ar dir hen ystad wledig ym Mhowys, ger y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae hanes trin y tir yno'n dyddio yn ôl ryw 400 o flynyddoedd, a gwyddys ei fod wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol fel gardd lysiau gyda melin i falu grawn i'r ystad. Ym 1979 fe brynwyd y safle gan Mr Ieuan Bennett, a sefydlodd y fferm frithyllod.

Mae'r brithyllod i gyd yn cael eu tyfu mewn modd confensiynol, gan y canfuwyd nad yw cynhyrchu'n organig yn dod â buddion o bwys i fusnes o'r maint hwn. Er mai micro-fusnes yw hwn lle mae'r perchennog yn gweithredu ar ei ben ei hun y rhan fwyaf o'r amser, gan ddibynnu ar gymorth aelodau o'i deulu dim ond pan fydd angen i gasglu pysgod a'u gosod mewn blychau, mae Fferm Frithyllod Llanandras yn cynhyrchu 35 tunnell o frithyllod y flwyddyn, sef cyfanswm o 100,000 o bysgod.

Ffynhonnell: C.E. Lloyd Prifysgol Abertawe

Arferion

Gweithredir y fferm frithyllod ar sail system 'tramwyfa sengl', lle mae'r dŵr yn yn cael ei dynnu o Afon Llugwy trwy gyfres o hidlwyr ac yn pasio unwaith yn unig trwy'r pyllau pysgod cyn dychwelyd i'r afon. Mae llif y dŵr trwy'r fferm yn gyflym. Mae hyn yn nwyo'r dŵr gan ei gadw'n rhydd o glefydau a llygredd. Mae'r hidlwyr sydd wrth fewnfa ac allanfa'r dŵr yn atal y brithyllod seithliw rhag dianc o'r pyllau i'r afon a hefyd yn rhwystro pysgod brodorol o'r afon rhag mynd i mewn i'r pyllau pysgod. Mae gan y fferm frithyllod system nwyo wrth gefn hefyd rhag ofn bod cyflymder llif y dŵr trwyddo o'r afon yn lleihau.

Mae'r fferm yn deor ei stoc ei hun, gan brynu wyau wedi'u ffrwythloni dair gwaith y flwyddyn. Prynir trigain kilo o wyau sy'n cynhyrchu tua 45,000 o silod mân. Yn y ddeorfa mae dŵr o ffynnon ar y safle'n cael ei ychwanegu at ddŵr yr afon. Mae hyn yn cadw tymheredd y dŵr yn y ddeorfa'n isel, sy'n bwysig iawn i'r silod ac i'r gleisiaid. Yn y ddeorfa ei hun mae Mr Bennett yn bwydo'r silod a'r gleisiaid â llaw nes iddynt dyfu'n ddigon mawr i fynd i'r pyllau y tu allan. Maent yn cael eu symud trwy system o bibau a hopranau er mwyn cadw'r angen i'w trin â llaw at y lefel isaf bosibl. O'r foment y derbynnir yr wyau sydd ar ddeor mae'n cymryd rhyw 14 mis iddynt aeddfedu'n frithyllod seithliw sy'n barod i'r bwrdd.

Trwy ddefnyddio system y dramwyfa sengl mae Mr Bennett yn gallu lleihau'r angen am weithwyr ychwanegol. Mae'n dibynnu ar aelodau o'r teulu i brosesu'r pysgod ar gyfer y farchnad. Unwaith y maent yn barod i'r farchnad mae'r pysgod yn cael eu symud trwy'r pyllau i bwll terfynol lle maent yn cael eu lladd

â thrydan. Mae'r dull lladd hwn yn well gan y perchennog na'r arfer a ddefnyddir yn aml mewn mentrau dwysach eu gweithrediadau, sef casglu'r pysgod a thorri eu crogennau. Deëllir bod y dull hwnnw'n codi lefelau straen y pysgod gan amharu ar ansawdd y cig.

Gosodir y pysgod yn gyfan mewn blychau i'w dosbarthu i farchnadoedd yn Wolverhampton a Birmingham (tua 110 km o'r fferm) y mae Mr Bennett yn mynd iddynt unwaith yr wythnos. Mae cadw'r pysgod yn gyfan, yn hytrach na'u gwagio a thynnu'r esgyrn ar y safle, yn symleiddio gweithrediadau ac yn gochel rhag yr angen i gael gwared â'r gwastraff.

Cyfleoedd a Rhwystrau

Teimlad Mr Bennett yw mai un o brif fanteision ei fusnes yw ei leoliad daearyddol. Yn sefyll fel y mae ar y ffin â Lloegr, mae Fferm Frithyllod Llanandras mewn lle delfrydol i ddosbarthu i farchnadoedd yng Nghanolbarth Gorllewinol Lloegr, ac ar hyn o bryd mae'r holl bysgod a gynhyrchir yno'n cael eu hallforio o Gymru. Fel hyn y mae'r sefyllfa'n debyg o aros tra bod rhwydweithiau cludiant Cymru mor gyfyngedig.

Mae maint bychan y busnes yn fantais hefyd, o ystyried mor gyfyng yw'r marchnadoedd sydd ar gael; trwy weithredu fel micro-fusnes, gweithio ar ei ben ei hun y rhan fwyaf o'r amser a defnyddio aelodau o'i deulu dim ond pan fo angen, mae'n llwyddo i gadw ei gostau gweithredu mor isel â phosibl a dal i fasnachu.

Y brif rwystr a wynebir gan y busnes ym marn Mr Bennett yw ei anallu i atgyfnerthu ei le yn y farchnad. Mae'r farchnad gyfanwerthu wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r archfarchnadoedd mawrion yw'r prif gwsmeriaid bellach sy'n prynu brithyllod. Nid yw busnes bach fel Fferm Frithyllod Llanandras yn gallu cynhyrchu digon i sicrhau'r cytundebau mawr sydd eu hangen i anfon cyflenwadau'n rheolaidd at yr archfarchnadoedd.
Mae'r fferm mewn ardal wledig brin ei phoblogaeth. Nid yw gwerthu 'wrth y giât' neu mewn siop fferm yn opsiwn ymarferol felly. Yn yr un modd, er bod Mr Bennett yn ymwybodol o boblogrwydd Marchnadoedd Ffermwyr, nid yw'n bwriadu eu defnyddio fel ffordd o werthu mwy gan y byddai hyn yn mynd â gormod o'i amser.